Neuadd Y Sir
Stryd Caerfyrddin
Llandeilo
Sir Caerfyrddin
SA19 6AF

ffon/Facs:
01558 824167

Technical Officer/
Swyddog Technegol:
Mr R.H. Griffiths

The Shire Hall
Carmarthen Street
Llandeilo
Carmarthenshire
SA19 6AF

Phone/Fax:
01558 824167

Town Clerk/ Clerc y
Dref: Ms C.A .Paterson
clerk@llandeilo.gov.uk

[0177]Cofnodion o Gyfarfod o'r Cyngor Llawn yn Neuadd y Sir, Llandeilo ar ddydd Mawrth, 20 Ebrill 2004 am 7.30pm

Presennol: *Cynghorwyr:* Cyng. D. A. Jones (Maer/Cadeirydd), Cyng. S. Burge, Cyng. R. Bellamy (Dirprwy Faer),
Eraill: Cynghorydd Sir I. Jones, R. Huw Griffiths (Swyddog Technegol), C. A. Paterson (Clerc y Dref). Rhingyll N. Jones (Swyddog yr Heddlu)

6072: Ymddiheuriadau: Cyng D. Williams, Cyng C. Jenkins, Cyng I. Gwyn, Cyng K. Day

6073: Materion yr Heddlu: Roedd Rhingyll Clark yn dymuno trefnu diwrnod cyfleus i gwrdd a thrafod y lleoliad ar gyfer y bachau i ddal y camerâu C.C.T.V. Gofynnodd Rhingyll Jones os gallai gadarnhau'r lleoliadau arfaethedig a'r nifer o fachau sydd eu hangen.

Roedd y Cyngor wedi gofyn am 3 neu 4 bachyn. Cyfarfod gyda Rhingyll Clark i ddangos y lleoliadau.

Adroddiad Troseddau. Bu rhai helyntion mewn lleoliadau trwyddedig yn ystod penwythnos y gêm rygbi ryngwladol yn ddiweddar. Mae dau ddyn wedi derbyn gwaharddiad oes o bob lleoliad trwyddedig yn Llandeilo trwy'r Cynllun Gwylio Tafarnau.
Mae'r cyfrifoldeb am droseddau parcio bellach yn gyfrifoldeb i Gyngor Sir Caerfyrddin. Codwyd y mater am drigolion yn parcio y tu allan i'r Hen Neuadd Farchnad, ac yn cael eu dirwyo am wneud hynny. Nododd Rhingyll Jones y byddai'n cwestiynu hyn gan fod parcio fel arfer yn cael ei ganiatáu yma.

Fe wnaeth Rhingyll Jones rhagrybuddio bod Pencampwriaethau Seiclo Cenedlaethol Cymru yn pasio drwy Llandeilo ar 30 Mai 2004, ac y byddai'n peri i rhai strydoedd gael eu cau dros dro.

Diolchodd y Cyngor i Rhingyll Jones am ei bresenoldeb yn y cyfarfod ac fe adawodd Rhingyll Jones.

6074: Cofnodion y Cyfarfod Llawn
Dylai 6029 nodi: Estynnwyd Llongyfarchiadau cynnes i Cyng Day ar ei ethol fel Cadeirydd i'r Gymdeithas Gymunedol.

0177

6036 Yn adroddiad y Maer, nid oedd y Maer wedi gallu bod yn bresennol yng nghyfarfod y Gymdeithas Gymunedol a gynhaliwyd ar 2/3/04
6044 Mynegodd y Cyngor ei siom ar benderfyniad y Clerc.

0178

Derbyniwyd gofnodion y Cyfarfod Llawn a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Llandeilo ar ddydd Mawrth, 16 Mawrth 2004 am 7.30pm fel rhai cywir gyda'r newidiadau uchod. Cynigwyd gan Cyng Bellamy, eiliwyd gan Cyng Jenkins.

6075: Materion yn Codi
6041. Y Sefydliad Cyhoeddus.

Gohiriwyd y drafodaeth am hyn am fis gan fod yr Ymddiriedolaeth Ddinesig wedi trefnu cyfarfod gyda'r Ymddiriedolwyr ar ddydd Iau, 29 Ebrill 2004 am 6.00pm, a bydd gwybodaeth bellach ar gael yn dilyn y cyfarfod hwnnw. I'w gynnwys ar Agenda cyfarfod mis Mai.

6076: Cofnodion y Cyfarfod Arbennig.

Derbyniwyd gofnodion y Cyfarfod Arbennig a gynhaliwyd ar ddydd Mercher, 24 Ebrill 2004 fel rhai cywir. Cynigwyd gan Cyng Bellamy ac eiliwyd gan Cyng Burge.

6077: Materion yn Codi. Roedd y Pwyllgor Cyllid wedi argymell y defnydd o wasanaeth talu cyflogau ac mae hyn yn cael ei sefydlu.

Mae hysbysebion ar gyfer Clerc newydd wedi cael eu rhoi yn Post Datum, Y Lloffwr, The Guardian a'r Journal. Penderfynwyd mai'r dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau fyddai 10 Mai 2004 a gobeithir cynnal cyfweliadau ar 17 Mai 2004.

6078: Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyllid

Derbyniwyd gofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ar ddydd Mawrth 13 Ebrill 2004 fel rhai cywir, ac mae'r Cyngor yn derbyn yr argymhellion a nodwyd ynddynt. Cynigwyd gan Cyng Bellamy ac eiliwyd gan Cyng Burge.

6079: Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio

Derbyniwyd gofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar ddydd Mawrth, 13 Ebrill 2004 fel rhai cywir, ac mae'r Cyngor yn derbyn yr argymhellion a nodwyd ynddynt. Cynigwyd gan Cyng Bellamy ac eiliwyd gan Cyng Burge.

6080: Materion yn Codi
Asesiad Risg -

Clerc i brynu pecyn Cymorth Cyntaf sylfaenol ar gyfer y Caban.
Cllr Bellamy i ddarparu proforma ar gyfer blaen y Llyfr Cofnodi Damweiniau.

.

6081: Y Rheiliau a'r Meinciau.
Mae'r ymateb cyffredinol i'r rheiliau yn gadarnhaol iawn. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn hapus iawn gyda safon uchel y gwaith a wnaed, a cytunwyd bod y strwythur newydd yn gryfach na' beth oedd yno cyn hynny ac nad oedd angen codi pileri ar hyd y palmant.

0178

Derbyniodd y Cyngor lythyr o g yn oddi wrth Peelweld. Roedden nhw'n teimlo eu bod heb gael eu gofyn i gynnig dyfynbris ar sail cymhariaeth. Nid dyma oedd yr achos, roeddent wedi cael gweld llun o'r cynllun arfaethedig ac wedi cynnig dyfynbris ar gyfer hwnnw a chynlluniau rheiliau eraill. Roedd y Cyngor hefyd dan bwysau amser gan fod rhaid gwneud penderfyniad cyflym iawn i gomisiynu'r gwaith er mwyn gallu derbyn y grant.

0179

Llythyr i'w ysgrifennu at Peelweld yn ymddiheuro am beidio â rhoi gwybod iddyn nhw yn ysgrifenedig eu bod heb dderbyn y contract, gan esbonio bod cyfyngiadau amser ar y prosiect, a rhoi gwybod iddyn nhw y bydd y Cyngor yn adolygu ei broses tendro o dan y rheoliadau ariannol newydd.

Roedd y Cyngor Sir wedi rhoi addewid o gwblhau ailosod y palmant a newid y meinciau. Roedd pren y meinciau wedi cael eu hail staenio a'u trwsio. Roedd y Cyngor yn teimlo y dylai'r meinciau gael eu uwchraddio er mwyn mynd gyda'r rheiliau.

Swyddog Technegol i dderbyn dyfynbrisiau am feinciau newydd.

6082: Prosiect y Cerfluniau. Er mwyn parhau gyda datblygiad y prosiect hwn ar y trywydd a drafodwyd yn y cyfarfod gyda Robert Ap Steffan.

Llythyr i'w anfon at Fudiadau'r Dref sydd ar y bas data, yn rhoi manylion llawn o'r cynnig ac yn gofyn am enwebiadau i ymuno â'r Pwyllgor Llywio er mwyn datblygu'r prosiect.

6083: Adroddiad y Maer.

17 Mawrth 2004	Cyflwyniad o Ganlyniadau'r Arolwg Treftadaeth yng Nghapel Newydd
24 Mawrth 2004	Cyfarfod Arbennig o'r Cyngor
13 Mawrth 2004	Cyfarfod gyda Chyfarwyddwr Archaeoleg Cambria
13 Mawrth 2004	Cyfarfodydd Pwyllgor
16 Mawrth 2004	Cyfarfod gyda Viv Davies i drafod yr astudiaeth ymarferoldeb ar gyfer uwchraddio Heol yr Orsaf. Mae dau bosibilrwydd o dan ystyriaeth ar hyn o bryd. Y cyntaf yw i uwchraddio'r ffordd gyfan, a'r ail yw i uwchraddio o Maes Mwyn at yr Orsaf.

6084: Y defnydd o Neuadd y Sir ar gyfer cyfarfodydd gan Fudiadau eraill
Mae'r Cyngor wedi dod yn ymwybodol o rai problemau yn ymwneud â'r defnydd o Neuadd y Sir gan Fudiadau'r Dref, yn benodol y broblem o Ddiogelwch gyda chynifer o bobl yn defnyddio'r adeilad, a'r mater o Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus.

Gwneud cais i Mr E. G Hughes ar ran y Cyngor i ystyried y defnydd o Neuadd y Sir ar gyfer Cyfarfodydd Cyhoeddus a rhoi datganiad ysgrifenedig o Amodau ar gyfer defnyddio'r ystafell. Gyda'r wybodaeth hon, y mater i'w gynnwys ar yr Agenda ar gyfer cyfarfod y Cyngor Llawn yn y dyfodol.

6085: Gohebiaeth
Dyffryn Cennen – cyfarfod posib i'w gynnal ar ddydd Iau, 6 Mai 2004 i drafod materion Traffig.
Y Gerddi wrth y Cilgant – Clerc i gysylltu â Anne Griffiths fel Cyfreithiwr y Cyngor am wybodaeth fanwl am gynnwys y ddogfen sydd i fod i'w harwyddo.

0179

Asiantaeth yr Amgylchedd – Fe wnaeth y Cynghorydd Sir I Jones godi'r mater o erydiad gwelyau'r afon a'r posibilrwydd o garthu gwely'r afon.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.00pm